# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Glan Morfa

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Glan Morfa yn darparu amgylchedd ofalgar a chynhwysol, ac mae'n chwarae rhan ganolog yn ei chymuned leol. Mae arweinwyr yn gosod safonau uchel ac wedi sefydlu gweledigaeth gynhwysfawr sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnydd a lles disgyblion. Maent yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol i ddarparu profiadau ysgogol a diddorol i'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn caffael barn rhieni ac yn ymateb yn rhagweithiol ac amserol i'r canfyddiadau. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn treiddio'n werthfawr ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r pwyslais ar ddatblygiad personol, cymdeithasol a moesol disgyblion. Drwy amrywiaeth o weithgareddau a chwricwlwm yr ysgol, mae disgyblion yn cael eu hannog i fyfyrio ar faterion moesegol a chymdeithasol, gan ddangos parch at amrywiaeth ddiwylliannol ac ystod o gredoau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus tuag at eraill. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu ac yn ymgysylltu'n llawn ag ystod eang o dasgau. Mae'r staff yn sicrhau amgylchedd ddysgu gyfoethog ac mae'r defnydd o'r mannau dysgu awyr agored yn arbennig o effeithiol wrth gefnogi dysgu ymarferol priodol.

Mae gan yr ysgol nifer o bwyllgorau disgyblion sydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau arweinyddiaeth a chyfleoedd i fynegi barn ar faterion sy'n bwysig iddynt. Trwy weithio ar brosiectau amrywiol, fel eu gwaith ar greu amgylchedd gynhwysol a chroesawgar i geiswyr lloches, mae disgyblion yn cyfrannu'n uniongyrchol at ethos a chyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn chwarae rhan weithgar wrth lunio polisïau a chynlluniau, gan gynnwys hybu lles, cynhwysiant a pharch ar draws cymuned yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n gytbwys ar wybodaeth a medrau blaenorol disgyblion. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhif, llythrennedd, digidol a chreadigol. Er hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cael anhawster wrth gymhwyso eu medrau Cymraeg yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Mae cynlluniau eisoes ar waith i fynd i'r afael â hyn.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Datblygu ymhellach gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025